

WILLIAMS, WILLIAM, Llandygái (1738 - 1817), llenor, hynafiaethydd, a swyddog pwysig ar gloddfa lechi Cae-braich-y-cafn

Enw: William Williams

Dyddiad geni: 1738

Dyddiad marw: 1817

Plentyn: Edmund Williams

Plentyn: Robert Williams

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: llenor, hynafiaethydd, a swyddog pwysig ar gloddfa lechi Cae-braich-y-cafn

Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

Awdur: Thomas Richards

Ganwyd 1 Mawrth 1738 yn Nhrefdraeth, Môn, o rieni tlodion, a main iawn oedd ei fyd yn ei ddyddiau cynnar. Bu'n wehydd dros dro, ac yna'n brentis cyfrwywr yn Llannerch-y-medd am saith mlynedd. Daeth yn un o ddisgyblion prydyddol [Huw Hughes](#) y ' Bardd Coch ', ac yn bur gyfeillgar â [Robert Hughes](#), sef ' Robin Ddu yr ail ', a thrwy'r cyfeillgarwch hwnnw y daeth yn aelod gohebol o Gymdeithas Gwyneddigion Llundain; daeth yn gydnabyddus hefyd â [William Morris](#) o Gaergybi. Trobwynt mawr ei fywyd oedd taith ei dad i'r [Penrhyn](#) i gael sgwrs â Richard Hughes, pen gorchwyliwr y stad a sgwier ei hun (o deulu Bodrwyn a Thre'r dryw ym Môn) Cafodd gychwyn fel clerc achlysurol yn y swyddfa, gan lanw'r amser i fyny fel cyfrwywr; mynnodd ymberffeithio fel tir-fesurydd, a gofynnwyd am ei wasanaeth gan berchenogion stadau fel [Gwaenyng](#) yn sir Ddinbych a Meillionydd yn Ll n. Nid anaml ychwaith y ceisid ganddo weithredu fel athrywynwr a chanolwr rhwng meistr a ffermwr, rhwng ffermwr a ffermwr. Pwynt pwysig arall yn ei yrfa oedd argyhoeddiad [Richard Pennant, yr arglwydd Penrhyn cyntaf](#), mai William Williams oedd yr union ddyn i lywio codi, cludo, a gwerthi'r llechi; parhaodd yr oruchwyliaeth hon o 1782 i 1802, a phrawf 12 o lyfrau cownt Williams am y flwyddyn olaf hon pa mor drylwyr y cadwai ei olwg ar bethau, a pha mor fanwl ei ddulliau, gyda'r saith golofn o fanylion ymhob un o'r 12 llyfr. Ar ei ymddiswyddiad cafodd gyflog blynyddol llawn am weddill ei oes. Yn awr daeth hamdden i lenyddiaeth : yn 1802 cyhoeddwyd (arg. Rhydychen) ei *Observations on the Snowdon Mountains*, gyda sylwadau diddorol am arferion yr ardaloedd ac (yn naturiol ddigon) bennod hir ar dras a threigl [teulu'r Penrhyn](#) (awdur y bennod hon oedd [John Thomas](#) o Fiwmares gynt); bum mlynedd wedi ei farw cyhoeddwyd *Prydnawngwaith y Cymry*, gwaith a fwriadwyd fel cyflenwad' i *Drych y Prif Oesoedd*. Ar wahân i'r gweithiau argraffedig hyn, gadawodd ar ei ôl beth wmbredd o gyfraniadau mewn llawysgrif, fel ' lolo o'r Cyffredin Glas,' lle y caiff Williams gyfle, ar ddull stori a chaneuon, i draethu ei farn ar ddiwinyddiaeth Calfin, ar rysedd sectyddion, ar seiadau Methodus; nid annhebyg yw'r ' Ddadl rhwng Tudur a Gronwy ynghylch Etholedigaeth.' Yn 1803 yr oedd ganddo yn barod, eto mewn MS. 289 td., ' Lysiau-lyfr yn cynnwys amryw ddail, a'u Rhinwedd i iachau amryw Glefydau,' a disgrifir hwn fel 'o sgrifeniad William Williams '; eto, ' History of Carnarvonshire,' 106 td., gyda syniadau diddorol am ardaloedd y chwareli. Nid yw'n syndod yn y byd, yn wyneb y llafur llenyddol dygn, ddarllyn am ei garedigrwydd yn rhoddi gwybodaeth am bobl a phethau Arllechwedd i [Richard Fenton, Syr Richard Colt Hoare](#), a'r Gwyddel Hyde Hall a ysgrifennodd Bangor MS. 908. Bu farw 17 Gorffennaf 1817. Ni chollwyd llengarwch o'r teulu ar ei farwolaeth ef; adeiladodd Robert Williams, ei fab, llenor da a ffrind i lenorion, *Gorph o Dduwinyddiaeth*, a'i gyhoeddi ym Mangor, 1831; ac awdur marw-goffa William Williams yn y *Gwyllydydd* am 1828 (ar ffurf llythyr at '[Gutyn Peris](#).') oedd ei fab Edmund Williams.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 289

Y Gwyllydydd, vi, 97

Llawysgrifau Bangor yn Llyfrgell Coleg y Gogledd, Bangor (Coleg y Gogledd) 557, 2633-4, 2636, 5442

Llawysgrifau Penrhyn yng Ngholeg y Gogledd, Bangor (Coleg y Gogledd) 1836-47

llawysgrifau ym meddiant y Parch. E. G. Wright, ficer Glanadda

colofnau'r *The North Wales Gazette*, 1795-1817

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [NLW MS 23179B: Memorandum book in the hand of William Williams \(1738-1817\)](#)

VIAF: [6171747](#)

Wikidata: [Q17423834](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

